O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2021 Rhif 1061 (Cy. 249)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 32 (Coryton) i Gyffordd 33 (Capel Llanilltern), Caerdydd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dro) 2021

Gwnaed	*17 Medi 2021*
Yn dod i rym	*26 Medi 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 32 (Coryton) i Gyffordd 33 (Capel Llanilltern), Caerdydd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Medi 2021.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**); a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 26 Medi 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar naill ai cerbytffordd tua'r gorllewin neu gerbytffordd tua'r dwyrain y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4.—(1) Tra bydd cerbydau'n cael eu gwahardd, gan erthygl 3, rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ond yn unol ag erthygl 10, ddim yn cael eu gwahardd ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur er mwyn peri neu ganiatáu iddo fynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain i unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r gorllewin.

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(2) Tra bydd cerbydau yn cael eu gwahardd, gan erthygl 3, rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ond yn unol ag erthygl 10, ddim yn cael eu gwahardd ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur er mwyn peri neu ganiatáu iddo fynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r gorllewin i unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r dwyrain.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n 2.9 metr o led neu'n fwy fynd ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

9. Bydd y llain galed sy'n gyfagos i'r darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ar gael i'w defnyddio fel lôn draffig gan bob cerbyd modur, ac eithrio cerbydau sy'n 2.9 metr o led neu'n lletach.

Cymhwyso

10.—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8 a 9 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal dros dro

11. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 5, 6 a 7 yn weithredol.

12. Mae rheoliad 5 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Cymru a Lloegr) 1982(**1**) a darpariaethau rheoliad 9 o'r Rheoliadau hynny sy'n ymwneud â gyrru cerbydau wedi eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn gymwys

(**1**) O.S. 1982/1163.

i'r llain galed sy'n gyffiniol â'r darnau o gerbytffyrdd tua'r gorllewin a thua'r dwyrain y draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, a chyfarwyddir traffig, gan erthygl 9, i ddefnyddio'r llain galed benodedig.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

13. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 17 Medi 2021

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1
Gwrthlif a dim goddiweddyd

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o'r man croesi 700 metr i'r gorllewin o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32 (Coryton) am bellter o tua 2.6 cilometr.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o'r man croesi 2.2 cilometr i'r dwyrain o Gyffordd 33 (Capel Llanilltern) am bellter o tua 2.6 cilometr.

ATODLEN 2
Terfyn cyflymder 30 mya, 40 mya neu 50 mya dros dro a chaniatáu traffig ar y llain galed

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o bwynt 500 metr i'r dwyrain o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32 (Cyfnewidfa Coryton) hyd at bwynt 1.7 cilometr i'r dwyrain o Gyffordd 33 (Capel Llanilltern).

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 33 (Capel Llanilltern) hyd at bwynt 200 metr i'r gorllewin o drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 32 (Coryton).

ATODLEN 3
Gwahardd cerbydau llydan dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32 (Coryton) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 33 (Capel Llanilltern).

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 33 (Capel Llanilltern) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 32 (Coryton).